# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

**(Ystafelloedd Pwyllgor A/B - Canolfan Ddinesig Castell-nedd)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 17 Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, A.R.Aubrey, W.F.Griffiths, R.Davies a/ac J.Hale |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Roberts, D.Griffiths, S.Cook, H.Hasan, M.Brumby, N.Headon, N.Jones a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr E.V.Latham a/ac A.Wingrave |

---

1. **BLAENRAGLEN WAITH 2019/2020**

   Nodwyd y Blaenraglen Waith.

2. **YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB AC ARBEDION DRAFFT CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD AR GYFER 2020/21**

   Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y cerbyd gorfodi. Esboniwyd bod y cerbyd yn gweithredu tan 6.30pm, gyda staff yn gweithredu ar ddwy shifft a rennir sydd wedi'u hymrwymo i gytundeb 37 awr, ac roedd hyn yn cynnwys rhai nosweithiau Sadwrn ar gyfer ardaloedd a nodwyd megis safleoedd tacsis. Esboniodd y swyddogion y byddent yn ceisio defnyddio gwaith gyda'r hwyr mewn ardaloedd sydd â phroblemau y tu allan i oriau, megis safleoedd tacsis. Aeth y swyddogion ati i esbonio bod gorchmynion traffig yn dod i ben am 6.00pm mewn rhai lleoliadau.

   Gofynnodd yr aelodau am y defnydd o'r cerbyd; tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y cyngor un fan ac y defnyddir honno i orfodi rhai gorchmynion megis safleoedd tacsis, gwaharddiadau llwytho, cilfannau bysus gwasanaeth cyhoeddus a llinellau igam ogam y tu

allan i ysgolion, ac ni allant orfodi'r holl orchmynion ar hyn o bryd. Os byddai angen swyddog symudol ar aelodau, bydd angen iddynt gysylltu â'r Adran Gwasanaethau Parcio i drefnu hynny.

Teimlai aelodau fod y cerbyd gorfodi'n ymweld ag ysgolion ar yr amser anghywir, esboniwyd y byddent yn osgoi ysgolion ar hyn o bryd nes y bydd gorchmynion traffig newydd ar waith, yna caiff y gorchmynion hyn eu gorfodi gan y fan camera.

Nodwyd nad oes llawer o hysbysiadau o dâl cosb yn cael eu rhoi i rieni ar hyn o bryd, oherwydd pan fyddant yn gweld y swyddog gorfodi sifil neu'r heddlu byddent yn symud ymlaen. Pe bai cerbyd gorfodi'n gyrru heibio ysgol ac roedd rheini wedi parcio'n groes i'r gorchmynion traffig ni fyddai unrhyw amser iddynt symud.

Nodwyd bod incwm wedi'i ailfuddsoddi yn y gwasanaeth, er blaenoriaeth y cerbyd gorfodi oedd diogelwch, nid incwm.

Esboniodd swyddogion bod ffyrdd y gallai'r cyngor hyrwyddo'r cerbyd gorfodi, trwy gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y defnydd o'r cerbyd.

Nodwyd bod nifer y tocynnau parcio a roddwyd wedi cynyddu eleni, ac y bu llai o apeliadau. Roedd oddeutu 2,300 o docynnau wedi'u rhoi hyd yn hyn gan y cerbyd gorfodi, roedd hwn yn cael effaith gadarnhaol.

Esboniodd swyddogion fod rhif ffôn cyffredinol ar gyfer y Gwasanaethau Parcio lle gallai aelodau ffonio'r is-adran a gallai Swyddogion Parcio drefnu i'r cerbyd gorfodi ymweld ag ardal.

Atgoffwyd y Cynghorwyr y byddai eu sylwadau yn sgil y cyfarfod hwn yn rhan o’r ymateb i’r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y Gyllideb 2020/21. Gofynnwyd iddynt roi gwybod i swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill nad oeddent wedi’u cynnwys yn yr adroddiad atodedig fel bod modd eu hystyried

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

## 3. <u>ADRODDIAD DIWEDDARU A MONITRO AR DIPIO ANGHYFREITHLON</u>

Esboniodd swyddogion y bu ychydig o gynnydd o ran tipio anghyfreithlon, sydd yn ôl pob tebyg o ganlyniad i gyflwyno polisi dim gwastraff ar yr ochr newydd, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei

dadansoddi. Tynnwyd sylw at y ffaith bod camau gorfodi'n parhau i gynyddu a bod y cyngor yn arwain y ffordd o ran gorfodi yng Nghymru.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch tipio anghyfreithlon mewn lleoliadau ar draws y fwrdeistref sirol. Gofynnodd aelodau a oedd hyn o ganlyniad i amserau agor y ganolfan ailgylchu yng Nghwmtwrch Isaf. Esboniwyd bod y ganolfan ar agor pum niwrnod yr wythnos, a bod trefniadau ar y cyd â Phowys wedi'u rhoi ar waith, ac felly byddai unrhyw newidiadau'n golygu newid i'r bartneriaeth â Phowys, a byddai angen rhagor o staff er mwyn ehangu'r amserau gan arwain at gost ychwanegol.

Esboniodd swyddogion fod cost tipio anghyfreithlon yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio fformiwla a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ac roedd pob cyngor wedi defnyddio'r fformiwla a oedd wedi darparu cymhariaeth o gostau tipio anghyfreithlon ar draws y cynghorau yng Nghymru. Dywedodd aelodau yr hoffent weld yr union gostau, nid data'r fformiwla'n unig. Cytunodd y swyddogion i gysylltu â Rheolwr y Gwasanaeth i drafod hyn, ond gan fod nifer mawr o achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu hadrodd yn ogystal â gwaith arall, byddai'n annhebygol y gellir rhoi'r union gostau.

Mewn perthynas â grwpiau gwirfoddol yn casglu sbwriel, esboniodd y swyddogion y cydlynir y gwirfoddolwyr sy'n casglu'r sbwriel gan Gydlynydd Cadwch Gymru'n Daclus. Gosodir y sbwriel a gasglwyd i mewn i sachau oren sy'n cael eu gadael mewn mannau casglu penodol i'r cyngor eu casglu.

Diolchodd yr aelodau i'r Tîm Gorfodi am eu gwaith da.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

## 4. <u>ADRODDIAD DIWEDDARU A MONITRO AR REOLI PLAU</u>

Rhoddodd y swyddogion drosolwg ac esboniwyd nad oedd y maes gwasanaeth hwn yn statudol, ac y bu'n destun strategaeth arbedion gan gynnwys cynyddu'r gost, er bod y prisiau'n parhau i fod yn gystadleuol i'r sector preifat. Nodwyd, er bod y pris wedi cynyddu, fod y cyngor yn disgwyl adennill costau'n unig, ac ni fyddai'r pris yn cynyddu'r flwyddyn nesaf. Esboniodd swyddogion pan fydd y cyngor yn codi tâl, byddai'r galw am y gwasanaeth yn lleihau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y cyngor wedi lleihau'r adnoddau yn unol â'r galw am y gwasanaeth a chredir ei fod bellach yn wasanaeth cynaliadwy.

Esboniodd swyddogion fod Cynllun Busnes ar waith sydd â dangosyddion Perfformiad Chwarterol, a byddai hyn yn golygu y gellir cymharu'r ffigurau blynyddol.

Yn dilyn craffu, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

## 5. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Derbyniodd aelodau'r diweddaraf am ddatblygiad parhaus y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (CRhAP)

Gofynnodd yr aelodau am nifer y cwlferi yn y fwrdeistref sirol, ac esboniwyd bod y 90 o gwlferi a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd wedi'u rhestru yn y Strategaeth Llifogydd a'u bod yn flaenoriaeth uchel. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd gennym nifer y cwlferi ar dir preifat. Esboniodd y swyddogion hefyd fod cyfanswm o dros 1200 o gwlferi dan berchnogaeth yr awdurdod.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch safleoedd a llochesi bysus; esboniwyd nad oes unrhyw ofyniad statudol i ddarparu llochesi bysus, er bod gan y cyngor gyllideb i'w cynnal a'u cadw a'u newid, ac roedd cyllideb ar gael hefyd ar gyfer safleoedd bysus newydd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Gorchmynion Traffig Arfaethedig: Strydoedd Amrywiol Castell-nedd Port Talbot - Ysgolion

Gofynnodd yr aelodau a fyddai angen arddangos arwyddion ar y safle ar gyfer y cyfnod hysbysebu.

Esboniodd swyddogion fod y gofynion o dan Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 yn nodi bod angen i'r awdurdodau traffig gyhoeddi o leiaf un Hysbysiad o Fwriad mewn papur newydd a ddosberthir yn yr ardal lle mae'r ffordd cyn gwneud gorchymyn, sy'n amlinellu ei gynnig a rhaid iddo hefyd ymgynghori ag ymgyngoreion statudol penodol (e.e. gwasanaethau brys).

Bydd angen i'r awdurdodau traffig hefyd sicrhau bod yr hysbysiad uchod yn cael ei gadw yn eu Canolfannau Dinesig i'r cyhoedd ei archwilio, yn ogystal â chynllun, copi o'r Gorchymyn ddrafft a chopïau o unrhyw Orchmynion Traffig sy'n cael eu diddymu.

Mae rheoliad 7 y rheoliadau'n nodi bod angen i unrhyw awdurdod draffig:

"cyn gwneud gorchymyn, ... [c] gymryd unrhyw gamau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol ar gyfer ystyried bod cyhoeddusrwydd digonol am y gorchymyn ar gael i bobl y mae ei ddarpariaethau'n debygol o effeithio arnynt ac, heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr is-baragraff, gall camau eraill o'r fath gynnwys -

i. ... cyhoeddi hysbysiad yn y *London Gazette,*
ii. arddangos hysbysiadau ar ffyrdd neu mewn unrhyw leoedd y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt,
iii. dosbarthu hysbysiadau neu lythyrau i fangre, neu fangre a anheddir gan bobl, sy'n ymddangos i'r awdurdod ei fod y bydd unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn hwnnw yn debygol o effeithio arnynt."

Nodwyd nad oedd gofyniad penodol i osod hysbysiadau ar y ffordd neu i sicrhau bod yr hysbysiadau hyn a osodwyd ar y ffordd yn cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**